



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

## Darlith Goffa Robin ap Cynan - Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016

### CYFRAITH TEULU CYMRU AMSER I GREU AWDURDODAETH ANNIBYNNOL?

#### Ei Anrhydedd, y Barnwr Gareth Jones

Mae'n fraint fawr i mi gael fy ngwahodd i draddodi Darlith Goffa Robin ap Cynan eleni ar destun a fyddai o gryn ddiddordeb iddo.

#### Cefndir

Yr wythnos hon swyddogaeth Prifwyl Cymru fydd hyrwyddo a dathlu gwareiddiad a diwylliant y genedl - ei thraddodiadau llenyddol a cherddorol drwy'r iaith a roddodd fodolaeth iddynt. Ac eithrio achlysuron prin megis y ddarlith flynyddol hon, fe anghofir am un o draddodiadau pwysig Cymru - ei thraddodiad cyfreithiol a gollwyd, ond a adferwyd yn ddiweddar drwy ewyllys ei phobl.

Ym 1932 cyhoeddwyd cyfrol gyntaf "Braslun a Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd at 1535" gan Saunders Lewis. Ynndo cawn ymdriniaeth o feirdd y tywysogion, beirdd yr uchelwyr a hefyd Taliesin a Dafydd ap Gwilym. Ond ynndo hefyd mae pennod ar ryddiaith Cymru ac fe welwn y canlynol:

*"Ffaith sy'n wir arwyddocaol yw mai'r gwaith mawr cyntaf a gadwyd inni mewn rhyddiaith Gymraeg yw'r Cyfreithiau."* (tud 31)

Mae'n parhau:

*"Y Cyfreithiau Cymreig yw un o binaclau gwareiddiad yr Oesoedd Canol yn Ewrop."* (tud 32)

Ac wedyn:

*"Canys yr hyn sydd bron yn anhygoel ynglŷn â'r Cyfreithiau yw eu bod mewn Cymraeg. Golyga hynny fod yr iaith eisoes wedi cyrraedd aeddfedrwydd athronyddol digyffelyb yn y cyfnod."* (tud 32)

Felly, mae hi'n gwbl deilwng a phriodol fod y traddodiad cyfreithiol pwysig hwn yn cael ei le ym Mhrifwyl Cymru hefyd.



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Beth oedd elfennau'r traddodiad hwn ac ydyw'n berthnasol i'r Gymru gyfoes?

Trof at ail ran y cwestiwn yn gyntaf.

Soniais eisoes am golled y traddodiad. Gadawaf i haneswyr y gyfraith ddadlau pryd y digwyddodd hynny. Mae'r cerrig filltir ar hyd y ffordd yn adnabyddus: Statud Rhuddlan, y Deddfau Uno, Diddymiad Llysoedd y Sesiynau Mawr. Mae yna wahaniaeth hefyd rhwng gallu deddfwriaethol a chyfreithiol a defnydd cyhoeddus o'r gyfraith arferol - oherwydd mae i'r gyfraith ffynonellau statudol a hefyd gwreiddiau Cyfraith Gyffredin (Common Law). Ond yn sicr, ymhell cyn dyfodiad yr ugeinfed ganrif fe gollodd Cymru ei thraddodiadau cynhenid cyfreithiol.

Yn ddiweddar fe'u hadferwyd. Ers 2007 sicraodd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i gyflwyno Mesurau Cyfreithiol ac wedi 2011 y gallu i basio Deddfau. Ail-gynwyd y traddodiad cyfreithiol mewn modd amserol a phwysig.

Trof yn fyr felly at ran gyntaf y cwestiwn, ynglŷn ag elfennau'r traddodiad cyfreithiol.

Yn ei gyfrol "Cyfraith Hywel Dda" (1986) mae'r Athro Dafydd Jenkins yn ymdrin â thri llyfr y Cyfreithiau - Cyfraith y Llys, Cyfraith y Wlad a Llyfr y Cyfreithwyr (sef llawlyfr ymarferol i farnwyr ac eiriolwyr y cyfnod).

Tu fewn yr adran sy'n ymwneud a Chyfraith y Wlad, mi fuaswn yn dadlau taw'r bwysicaf ac o bosib yr helaethaf ydy'r rhannau hynny sydd yn ymwneud a Chyfraith y Teulu a Chyfraith y Fenyw.

Efallai nad yw hyn yn syndod. Gellir dadlau fod y teulu yn elfen greiddiol o fewn unrhyw gymdeithas ac felly byddai cyfundrefn gyfreithiol a anwybyddai'r pwnc yn ddiffygiol ac yn annigonol.

Ond nid *traddodiad* sydd o dan sylw yn y ddarlith hon oherwydd pwnc ymarferol yw'r gyfraith sy'n perthyn i'r byd modern. Rhaid i'r gyfraith fod yn berthnasol a rhaid i gyfundrefn y gyfraith fod yn bwrpasol i anghenion y gymdeithas mae'n gwasanaethu. Mae'r gofyniad hwn yn elfennol.



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

O bosib nid oes un agwedd o fywyd dynol sydd wedi newid cymaint â'r bywyd teuluol dros y ganrif a aeth heibio. Mae'r gallu i ddiwygio a datblygu a newid yn y maes cyfreithiol hwn yn amlwg.

Byddai yn amhosib mewn darlith gryno fel hon i gyflwyno ymdriniaeth o'r datblygiadau eang yng Nghyfraith Teulu Cymru a Lloegr a welwyd yn y ganrif a aeth heibio.

Fy mwriad yw canolbwyntio ar Gyfraith Teulu Cymru.

### **Y Sefyllfa Bresennol**

Mae rhaniad cydnabyddedig rhwng Cyfraith Teulu Preifat a Chyfraith Teulu Gyhoeddus. Mae'r cyntaf yn ymwneud a'r berthynas gyfreithiol rhwng unigolion. Mae'r ail yn ymwneud a'r berthynas gyfreithiol rhwng asiantaethau cyhoeddus a'r unigolyn (yn gyffredinol asiantaethau'r wladwriaeth) yn bennaf er mwyn diogelu neu warchod buddiannau'r plentyn ac mae'r rhan fwyaf o'r galluoedd cyfreithiol sydd yn ymwneud â'r swyddogaeth hon wedi eu cynnwys yn adrannau IV a V Deddf Plant 1989 ond hefyd o fewn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sydd yn caniatáu gorchmynion mabwysiadu wedi gorchymyn lleoliad.

Gwelir hefyd rhaniad yng ngalluoedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn gyffredinol, nid oes gan y Cynulliad allu deddfwriaethol dros gynnwys Cyfraith Teulu Preifat yng Nghymru. Senedd San Steffan sydd yn deddfu yn y maes hwn dros Gymru a Lloegr. Gwelwyd enghraifft ddiweddar ym mhenderfyniad San Steffan i ymestyn yr hawl i briodi i gyplau hoyw, penderfyniad a wnaethpwyd yn San Steffan dros awdurdodaeth Cymru a Lloegr ar y cyd.

Yn gyffredinol, nid oes gan y Cynulliad allu deddfwriaethol dros gynnwys Cyfraith Teulu Gyhoeddus ond mae ganddo'r gallu cyfreithiol a chyfrifoldeb gweinyddol dros nifer o asiantaethau'r wladwriaeth sydd yn ymwneud a Chyfraith Teulu Gyhoeddus o fewn i Gymru neu sydd yn ymwneud a buddiannau plant tu fewn i Gymru, er enghraifft awdurdodau lleol Cymru, CAFCASS Cymru, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Cyngor Gofal Cymru a Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Canlyniad y rhaniad hwn o fewn galluoedd deddfwriaethol y Cynulliad yw bod cyfrifoldeb dros *gynnwys* y Gyfraith Teulu Gyhoeddus wedi ei eithrio i San Steffan tra bod y cyfrifoldeb gweinyddol dros nifer o'r asiantaethau sydd yn gweinyddu'r gyfraith honno wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad yng Nghaerdydd. Y mae hyn yn dilyn Atodlen 7, Rhan 1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 lle caniateir i'r Cynulliad ddeddfu ym maes lles cymdeithasol ac eithrio cyfraith ac achosion teulu.

Cyfeiriaf yn fyr at enghraifft ymarferol o weithrediad y rhaniad hwn. Pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

*".....i wneud darpariaeth ynghylch ac mewn cysylltiad â rhoi effaith bellach yng Nghymru i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a roddir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn."*

Hwn oedd bwriad y deddfwriaeth ac mi fyddai nifer yn cytuno gyda'r bwriad hwnnw. Gwelir yn atodlen y Mesur erthyglau priodol y Confensiwn yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r gyfraith ddomestig yng Nghymru ond nid ymgorfforiad cyflawn mohono. Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Ran I o'r Confensiwn ac erthyglau priodol Protocol Dewisol y Confensiwn wedi ei osod ar Weinidogion (a thrwy hynny llywodraeth) Cymru ond nid ar y llysoedd yng Nghymru.

Cadarnhawyd y dehongliad hwn ym mhenderfyniad Mr Ustus Moor, Barnwr Cyswllt Adran Teulu'r Uchel Lys dros Gymru yn *Re FB ac eraill [2015] EWCHC 297(Fam)* a benderfynwyd yn y Llys Teulu yn Abertawe – achos oedd yn ymwneud a mabwysiadu yn dilyn Gorchmynion Gofal a Lleoliad. Yn cyfeirio at ddadl eiriolwr y rhieni dywed:

*"His first submission is that the United Nations Convention on the Rights of the Child has been incorporated into Welsh Family Law and must be applied by all judges hearing a case in the Family Court in Wales. I do not agree."* (para 67)

Wedyn:

*"Family Law is not devolved to the Welsh Assembly. The law that I have to apply as to adoption comes from Westminster, which has not enshrined the Convention on the Rights of the Child into English and Welsh Law. It is right that social welfare law is devolved to the Welsh Assembly. It therefore follows that the Assembly can for example, make regulations as to the procedure local authorities have to follow in relation to social welfare. The*



*Assembly cannot, however, amend the Adoption and Children Act 2002 and that is the Act I am considering.” (para 70)*

Mae dehongliad cyfreithiol a statudol y penderfyniad yn eglur a chywir ac yn clymu barnwyr teulu dynodedig Cymru, barnwyr cylchdaith a rhanbarth ac ynadon y Llys Teulu yng Nghymru.

Ond mae arwyddion hefyd fod y rhaniad hwn rhwng *cynnwys* Cyfraith Teulu a chyfraith lles cymdeithasol o fewn i Gymru yn ymddangos yn llai eglur gyda dyfodiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Trof felly at y ddeddf bwysig hon.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Daeth y ddeddf i rym ym mis Ebrill eleni ac mae Rhannau VI a VII yn arbennig yn berthnasol i Gyfraith Plant Cymru. Mae'n ddyletswydd gyffredinol i'r rheini sy'n gweithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf i hyrwyddo llesiant unigolion sydd mewn angen gofal a chefnogaeth gan gynnwys plant yng Nghymru.

Mae “*llesiant*” felly yn derm allweddol o fewn y Ddeddf a'i ystyr i'w weld o fewn Adran 2(1)(a) - (h) y Ddeddf. Gweler hefyd Adran 2(3):

*“O ran plentyn mae ‘llesiant’ hefyd yn cynnwys –*

*(a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;*

*(b) ‘lles’ fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol ‘welfare’ at ddibenion Deddf Plant 1989.”*

Mae'r term “*lles*” yn greiddiol i Ddeddf Plant 1989 ac yn arbennig Adran 1(1) o'r Ddeddf honno:

*“Pan fo llys yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynglŷn â -*

*(a) magwraeth plentyn neu*

*(b) gweinyddiad eiddo plentyn neu'r defnydd o unrhyw incwm yn codi ohono,*

*lles y plentyn fydd ystyriaeth bennaf y llys.”*

Gweler fod diffiniad Adran 2(3) Deddf 2014 yn awgrymu nad yw “*lles*” a “*llesiant*” yn gyfystyr a'i gilydd gan fod “*llesiant*” yn cynnwys “*lles*” felly mae “*llesiant*” yn fwy eang ei natur na “*lles*” sydd ond yn elfen ohono. Meddyliwch am y termau cyfatebol yn Saesneg - “*well-being*” a “*welfare*”.



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Os felly, mae'n ofynnol i'r llysoedd o dan Ddeddf Plant 1989 roi'r ystyriaeth bennaf i les y plentyn ond mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol Cymru dros blant i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth (er enghraifft o fewn y cynllun gofal statudol o dan Adran 83 Deddf 2014) yn ehangach.

Gellid dadlau wrth gwrs na fydd y rhaniad hwn mewn terminoleg gyfreithiol yn gwneud gwahaniaeth ymarferol.

Gan fod y llysoedd yn defnyddio llinyn mesur "*lles*" wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â gorchmynion plant, yna yn anorfod mi fydd darpariaeth awdurdodau lleol Cymru (sydd yn defnyddio llinyn mesur estynedig a mwy hael) fel mater rhesymegol yn cydymffurfio a bodloni prawf y llys.

Ond fe ellir rhagweld achosion hefyd lle dadleuir y byddai darparu gwasanaethau ehangach er "*llesiant*" plentyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol y gellid ail-uno plentyn yn llwyddiannus gyda'i rieni neu ei deulu naturiol yn hytrach na chymryd y plentyn i ofal yr awdurdod lleol. Ac felly dylid oedi cyn cymryd cam o'r fath.

Ac os ydy dyletswydd yr awdurdod lleol fel y rhiant corfforaethol i'w fesur yn ôl "*llesiant*" plant, pam mewn egwyddor y dylid mesur dyletswyddau rhieni naturiol yn ôl llinyn mesur "*lles*" yn unig? Oes yna unrhyw gyfiawnhad rhesymegol dros y gwahaniaeth hwn?

Ac os ydy'r llysoedd a'r awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth a'i gilydd er budd plant mewn gofal, pam felly gwahaniaethu dyletswyddau'r llys a'r Ceisydd hynny yw'r awdurdodau lleol? Onid taclusach fyddai cysoni llinyn mesur swyddogaethau'r ddau? Gofyn cwestiwn yn hytrach na datgan barn y gwnaf.

Enghraifft yn unig yw'r uchod o un o ganlyniadau'r rhaniad presennol yng ngallu'r Cynulliad Cenedlaethol wrth ymdrin â chyfraith gyhoeddus plant yng Nghymru. Ond wrth i sylwedd deddfau Cymru wahaniaethu oddi wrth deddfau Lloegr yn y meysydd datganoledig yna mae'n debygol fe ychwanegir at amwysedd y sefyllfa bresennol.

Yn wir, hyd yn oed o fewn Deddf 2014 ceir enghraifft glir lle gellid dadlau nad yw'r ffin rhwng cynnwys Cyfraith Teulu ar y naill law a chyfraith lles cymdeithasol ar y llall wedi ei chadw. O dan

Cynrychioli, Hyrwyddo a Chefnogi cyfreithwyr



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Adran 124(5) Deddf 2014 mae gan y Llys Teulu yng Nghymru'r hawl i ddiddymu gwrthwynebiad rhiant, ble mae'r awdurdod lleol am wneud trefniant i blentyn mewn gofal fyw tu allan i Gymru a Lloegr yn groes i ddymuniad y rhiant hwnnw.

Yng Nghymru mae gan y Llys (sylwer) yr hawl i ddileu'r gwrthwynebiad hwnnw ar sail "llesiant" y plentyn. Yn Lloegr o dan Atodlen 2 para 19 Deddf Plant 1989 mae gan y Llys Teulu'r hawl i ddiddymu gwrthwynebiad rhiant mewn sefyllfa debyg, os ydy'r Llys yn fodlon fod y person hwnnw yn ymddwyn yn afresymol wrth ymwrthod rhoi ei gydsyniad - prawf gwbl wahanol. Felly, gellid dadlau fod Adran 124 o Ddeddf 2014 yn diwygio cynnwys Cyfraith Teulu o fewn i Gymru a phrawf perthnasol y Llys (nid yr awdurdod lleol).

Ymddengys felly taw ffiniau symudol a welir yn hytrach na ffiniau cadarn.

### **Awdurdodaeth**

Bu degawd ers i Farnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru, Syr Roderick Evans draddodi darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe o dan y teitl "Cymru'r Gyfraith - Camu 'Mlaen". Nododd pum elfen a gynhwysir yn y term 'Cymru'r Gyfraith' ac er iddo beidio sôn am awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn benodol - yn anuniongyrchol mae'r testun hwnnw ynghlwm ag egwyddorion dau a thri a nodwyd ganddo yn ei ddarlith.

Yn y Gymru gyfoes, ceir Senedd sydd â galluoedd deddfwriaethol wedi eu datganoli mewn meysydd penodedig. Mae'n debygol y gwelwn ymestyniad yn y meysydd hynny cyn hir. Felly, fe welwn dau gorff seneddol yn gweithredu tu fewn i diriogaeth benodol (sef Cymru yn unig) sy'n rhan o awdurdodaeth gyfreithiol unedig (Cymru a Lloegr). Mae'r sefyllfa yn unigryw yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig lle gwelir seneddau datganoledig deddfwriaethol ac awdurdodaethau cyfreithiol unigol. Mae'n anghyffredin ar lefel rhyngwladol hefyd.

Esgorodd dyfodiad Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gryn ddadlau dros ffiniau galluoedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Nid wyf am ddilyn y sgwarnog hwnnw eto. Gellid gweld crynodeb o benderfyniadau priodol y Goruchaf Lys ym mharagraffau 2.43 i 2.93 o bapur ymgynghorol rhif 223 gan Gomisiwn y Gyfraith.

**Cynrychioli, Hyrwyddo a Chefnogi** cyfreithwyr



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Pasiwyd Deddf Cymru 2014 fel ymateb i ran gyntaf o Adroddiad Comisiwn Silk ac fe ychwanegwyd at bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Cafwyd ymateb llywodraeth San Steffan i ail ran Adroddiad Comisiwn Silk fel y cyhoeddwyd yn Araith y Frenhines yn ddiweddar. Cyflwynwyd ymateb llywodraeth Cymru mewn bil drafft ychydig cyn yr etholiad Cynulliad diwethaf sy'n cynnwys creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

Nid yw wrth gwrs yn briodol i farnwr fynegi barn wleidyddol a rhaid iddo neu iddi fod yn ddiuedd. Credaf ar y llaw arall fod yna swyddogaeth i farnwr amlinellu dadansoddiad gwrthrychol a rhannu profiad neu arbenigedd yn ei faes er budd (gobeithio) y ddadl gyhoeddus.

I grynhoi, felly, ar hyn o bryd mae gan y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodaeth gyfreithiol dros Gyfraith Lles Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'r awdurdodaeth hon yn ymwneud â Chyfraith Teulu Cyhoeddus. Mae'r awdurdodaeth a grybwyllir yn gyfyngedig i diriogaeth benodol hynny yw o fewn Cymru. Ond nid oes gan Gymru awdurdodaeth gyfreithiol unigol ac unigryw. Ydy'r sefyllfa hon yn gynaliadwy?

I gychwyn, rhaid gwahaniaethu nifer o ystyriaethau yn y drafodaeth am awdurdodaeth gyfreithiol. Er enghraifft, byddai ffurfio proffesiwn cyfreithiol annibynnol yng Nghymru, gweinyddiaeth annibynnol y llysoedd (a'r gwasanaethau sydd ynghlwm iddynt) yng Nghymru a threfniant y llysoedd a'r gyfundrefn farnwrol yng Nghymru yn gysylltiedig â chreu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru ond yn wahanol hefyd.

Wrth gwrs mi fyddai oblygiadau ymarferol yn sgil creu awdurdodaeth gyfreithiol annibynnol ond mae llawer yn dibynnu ar sut y cyflwynir unrhyw awdurdodaeth o'r fath.

Dylid archwilio'r testun o awdurdodaeth gyfreithiol yn sgil ystyriaethau egwyddorol ac ymarferol.

Ers cyfnod yr Oleuedigaeth, nodwyd elfennau'r cyfansoddiad gwleidyddol - y deddfwriaethol, y barnwrol a'r gweinyddol. Yng Nghymru mae dwy o'r elfennau hyn yn bodoli neu'n egino o fewn i gyfundrefn ddatganoledig ond nid y drydedd hynny yw'r barnwrol (ac eithrio o bosib tribiwnlysoedd gweinyddol arbennig o fewn awdurdod unigol y Cynulliad Cenedlaethol). Yn anorfod, mae'r ddadl





Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

ynglŷn ag awdurdodaeth annibynnol gyfreithiol yn ymwneud ag egwyddorion democrataidd ac atebolrwydd a thryloywder.

Wrth ystyried pwnc awdurdodaeth gyfreithiol annibynnol rhaid ystyried hefyd y gwahaniaeth rhwng llysoedd cynradd a llysoedd apêl. Fel rhan o gyfundrefn farnwrol wâr, sydd yn parchu rheolaeth y gyfraith (rule of law) a hawliau dynol gwelir gwahaniaeth clir rhwng llysoedd sydd yn ymwneud ag achosion cynradd a'r llysoedd hynny sydd yn ymwneud ag apeliadau o'r penderfyniad cynradd hynny yw'r Llysoedd Apêl. Rhaid i ddinesydd sy'n ymglyfreithio, feddu ar hawl i apêl annibynnol. Mae hwn yn ofyniad sylfaenol.

Gwelir yn gyffredin, awdurdodaethau cyfreithiol sy'n meddu ar Lys neu Lysoedd Apêl terfynol a drefnir ar lefel rhyng-awdurdodaethol. Gwelir hynny o fewn y Deyrnas Unedig. Nid yw bodolaeth y Goruchaf Lys yn Llundain yn tanseilio bodolaeth awdurdodaeth gyfreithiol annibynnol i'r Alban neu Ogledd Iwerddon. Hefyd fe ymrwymodd yr Arglwydd Neuberger (Llywydd y Goruchaf Lys) yn 2013 byddai panel barnwyr y Goruchaf Lys yn cynnwys barnwr â gwybodaeth a phrofiad Cymreig mewn apeliadau yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. O bosib, gallwn weld dechreuad Goruchaf Lys ffederal gyda chynrychiolaeth farnwrol o wledydd y Deyrnas Unedig yn y penderfyniad hwn.

O fewn y Deyrnas Unedig gwelid nifer o awdurdodaethau cyfraith teulu unigol yn cyd-fodoli heb unrhyw drafferth. Mae Deddf Cyfraith Teulu 1986 wedi cyflwyno fframwaith eglur i weithredu/gorfodi a chydabod gorchmynion ac awdurdodaeth teulu'r Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr a'r Ynysoedd Prydeinig o fewn i'r Deyrnas Unedig.

Mae yna ystyriaeth bwysig arall yng nghyd-destun awdurdodaeth gyfreithiol unigol i Gymru. Rhaid cofio fod gan gyfundrefn ddeddfwriaethol a gwleidyddol Cymru nodwedd unigryw o fewn y Deyrnas Unedig. Cyfundrefn ddwyieithog a ddewiswyd gan bobl Cymru trwy eu cynrychiolwyr gwleidyddol ym Mesur yr Iaith Gymraeg 2011:

*“Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru” [Adran 1(1)]*



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Rhoddir “.....statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac is-ddeddfwriaeth” [Adran 1(3)(c)] ac fe gadarnheir hyn gan Ddeddf (leithoedd Swyddogol) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012.

Wrth gwrs, nid yw cyfundrefn gyfreithiol ddwyieithog yn unigryw ar lefel ryngwladol. Yn wir, tynnodd yr Arglwydd Neuberger sylw yn narlith Cymru'r Gyfraith ym Mangor yn ddiweddar at brofiadau Llys Apêl Hong Kong yn y cyd-destun amlieithog sydd yn bodoli yno. Ond mi fyddai dehongliad barnwrol gan unrhyw lys apêl uchaf Cymru a Lloegr yn y Gymraeg yn gysail nodedig.

Tra bod niferoedd parchus o siaradwyr Cymraeg o fewn y farnwriaeth yng Nghymru nid yw'r ddarpariaeth yn llysoedd apêl Cymru a Lloegr mor amlwg. Ceir ffigyrau priodol o ddefnydd y Gymraeg yn y llysoedd ym mharagraff 10.16 Adroddiad Comisiwn y Gyfraith 223 ac fe welwyd enghraifft o ddyfarniad yn y Gymraeg gan Lys Adranol, Adran Mainc y Frenhines yn *Gomisiynydd y Gymraeg v Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol [2014] EWHC 488 (Admin)*.

Os taw dehongli ystyr a bwriad cyfreithiol trwy eiriau ydy un o swyddogaethau unrhyw lys, boed hynny ar lefel gynradd neu apêl mi fydd angen ystyried sut mae darparu hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Ac wrth i nifer a chynnwys deddfau'r Cynulliad a'r is-ddeddfau gynyddu - mae hwn yn gwestiwn na ellir mwy ei osgoi. A fydd y dasg honno'n anoddach neu'n haws mewn awdurdodaeth annibynnol neu awdurdodaeth ar y cyd gyda Lloegr?

Yn sgil y cynnydd anorfod dros amser, ym maint a chynnwys deddfwriaeth Cymru, mi fydd rhaid i wybodaeth y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a'r farnwriaeth ddatblygu i gynnwys y wybodaeth newydd. Pwnc sydd yn newid yn gyson yw'r gyfraith. Ydy'r broses honno'n anoddach neu'n haws o fewn awdurdodaeth annibynnol neu o fewn awdurdodaeth ar y cyd ac ydy trefniadaeth bresennol y Coleg Barnwrol yn ddigonol i'r dasg honno?

Eisoes, mae'n ofynnol i ymgeiswyr barnwrol ddangos gwybodaeth o'r drefn lywodraethol ddatganoledig yng Nghymru ac yn anorfod fydd gwybodaeth o gynnwys deddfwriaeth unigryw o fewn i Gymru yn ofynnol hefyd lle bo'r angen. Mae gwybodaeth a gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn gymhwyster ychwanegol i rai apwyntiadau barnwrol yng Nghymru. Ydy trefniadaeth bresennol y



Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol yn ddigonol neu a oes angen diwygio? Ydy trefn dros awdurdodaeth ar y cyd yn sicrhau fod gofynion arbennig Cymru yn cael y sylw priodol?

Soniais ar gychwyn y ddarlith hon am benderfyniad Barnwr Cyswllt Teulu Cymru yn 2015 yn y Llys Teulu yn Abertawe. Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi datblygu a newid eto. Ymestynnwyd Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant i gynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Adran 7 Deddf 2014.

Os ydy Llywodraeth Cymru (a thrwy hynny CAFCASS Cymru fel asiantaeth lywodraethol) ac awdurdodau lleol yng Nghymru i ystyried cynnwys priodol Confensiwn Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig, am ba hyd fedr y llysoedd teulu yng Nghymru weithredu eu swyddogaeth mewn modd rhesymegol a chynnaladwy heb wneud hynny? Y mae galluedd deddfwriaethol y Cynulliad a bodolaeth awdurdodaeth gyfreithiol annibynnol yn bynciau sydd ag oblygiadau ymarferol i bobl Cymru, nid pynciau sych i "anoraks" gwleidyddol neu gyfansoddiadol mohonynt.

## **Y Dyfodol**

Crëwyd yn ddiweddar ar lefel Cymru a Lloegr Llys Teulu Unedig. Mi fydd yn rhaid i'r Llys newydd ymrafael a nifer o newidiadau yn y dyfodol. Mae'n hysbys i'r cyhoedd for gwasgfa ariannol wedi arwain at golled sylweddol yn nifer y llysoedd sydd yn bodoli yng Nghymru - sut felly mae darparu cyfundrefn farnwrol gyfoes a gwasanaeth teilwng i'r cyhoedd? Heb Gymorth Cyfreithiol mewn achosion teulu preifat, rhaid i'r llysoedd teulu ystyried gweithredu mewn modd ymchwiliol (inquisitorial) yn hytrach nac mewn modd gwrthwynebus (adversarial). A ddylai'r llysoedd teulu fod yn fwy agored i'r cyhoedd neu beidio? Rhaid ystyried hefyd newidiadau cymdeithasol. Er enghraifft mae'r technolegau gwyddonol newydd o genhedlu, newidiadau diri yng nghyfansoddiad y teulu, symudiadau rhyngwladol o ddinasyddion sydd yn cwrdd ac yn ffurfio perthynas ac yn cael plant i gyd yn creu gofynion newydd.

Dyma'r datblygiadau fydd yn rhaid i gyfundrefn Gyfraith y Teulu eu hwynebu a'u datrys ar lefel Cymru a Lloegr neu Gymru'n unig yn yr unfed ganrif ar hugain. Medrwn ddysgu llawer wrth awdurdodaethau cyfreithiol teulu eraill.



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

Ar waethaf y gofynion dyrys, mae gennyf ffydd ym mhobl Cymru a'u dyhead i greu gwell cyfle i'w plant – eu hadnodd pwysicaf.

Wrth gwrs, yn y pendraw, cyfrifoldeb pobl Cymru fydd naill ai creu a llunio (neu beidio creu) awdurdodaeth gyfreithiol unigol i Gymru neu fel cam tuag ato efallai Llys Teulu Unedig i Gymru ac iddo awdurdodaeth annibynnol. Gellid ystyried yr awgrym olaf hwn fel cam tuag at awdurdodaeth gyflawn, neu fel cam rhesymegol a phwysig mewn maes penodol sy'n gymwys i ymdriniaeth o'r fath. Mi fyddai'r cyntaf yn symudiad tuag at "awdurdodaeth ar wahân" a'r ail yn creu "awdurdodaeth benodol".

Mae yna gynsail hanesyddol - rhannol yn unig oedd awdurdodaeth Llysoedd y Sesiynau Mawr tan eu diddymiad. Mewn egwyddor - medrir ymestyn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru law yn llaw a chynnydd ym mhwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Ac efallai taw ym maes Cyfraith Teulu Cyhoeddus yng Nghymru y gwelir y datblygiad mwyaf arwyddocaol hyd yma.

Ond sylwadau yn unig yw'r rhain nid presgripsiwn. Mae'r dewis yn nwylo pobl Cymru ac mae yna gyfle iddynt ddangos unwaith eto (os ydynt yn dymuno gwneud hynny) eu gallu a'u dyfeisgarwch cyfreithiol a fu mor amlwg yn eu hanes.